CAERDYDD
CARDIFF

DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 28 MEDI 2017 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 28 SEPTEMBER 2017, |

Fe'ch gwysir I fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas on Dydd Iau, 28 Medi 2017 at 4.30 pm I drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Dydd Gwener, 22 Medi 2017

---

Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch at eraill   Gwrthrychedd a priodoldeb   Anhunaoldeb a stiwardiaeth
Uniondeb   Dyletswydd i gynnal y gyfraith   Atebolrwydd a bod yn agored

| *Eitem* | | *Tua Amser* | *Max Amser* |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>*Derbyn ymddiheuriadau am absenoldebau* | 4.30 pm | 5 mins |
| **2** | **Datgan Buddiannau**<br><br>*Derbyn datganiadau o fuddiannau (I'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau)* | | |
| **3** | **Cofnodion** *(Tudalennau 1 - 36)*<br><br>*Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2017 fel cofnod cywir* | | |
| **4** | **Deisebau**<br><br>*Derbyn deisebau gan Aelodau Etholedig i'r Cyngor* | 4.35 pm | 5 mins |
| **5** | **Cwestiynau gan y Cyhoedd** *(Tudalennau 37 - 38)*<br><br>*Derbyn cwestiynau a nodwyd yn flaenorol gan y Cyhoedd* | 4.40 pm | 5 mins |
| **6** | **Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer**<br><br>*Derbyn cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau* | 4.45 pm | 5 mins |
| **7** | **Datganiad Cyfrifon 2016/17 ac Adroddiadau Cydymffurfiaeth Blynyddol** *(Tudalennau 39 - 320)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau*<br><br>***Ni fydd Atodlen B ac C Atodiad 7 yn cael eu cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i heithrio dan y disgrifiad a geir ym Mharagraffau 14 a 21 Rhan 4 a 5 Atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972.*** | 4.50 pm | 20 mins |
| **8** | **Strategaeth ar y Gyllideb** *(Tudalennau 321 - 350)*<br><br>*Derbyn Cynnig y Cabinet a gymeradwywyd yn y cyfarfod ar 27 Gorffennaf 2017* | 5.10 pm | 30 mins |
| **9** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2016/17** *(Tudalennau 351 - 376)*<br><br>*Derbyn yr Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Mr Ian Arundale.* | 5.40 pm | 20 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **10** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau a Moeseg 2016 - 17** *(Tudalennau 377 - 398)*<br><br>*Derbyn yr Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg, Mr Richard Tebboth.* | 6.00 pm | 20 mins |
| **11** | **Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2016/17**<br>*(Tudalennau 399 - 488)*<br><br>*Derbyn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.* | 6.20 pm | 20 mins |
| **12** | **Datganiadau'r Arweinydd a'r Cabinet**<br><br>*Derbyn datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet* | 6.40 pm | 45 mins |
| **13** | **Cynnig 1**<br><br>Mae'r Cygnor hwn yn nodi'r canlynol:<br><br>1) Fel Aelodau Etholedig mae gennym ni gyfrifoldeb dros ein Dinas ac mae hynny'n cynnwys creu cymunedau cynaliadwy, gyda chynlluniau cynhwysfawr i gyflawni datrysiadau ffyrdd a rhwydwaith sy'n gyraeddadwy.<br><br>2) Mae Caerdydd yn wynebu tagfeydd traffig a rhwydwaith sylweddol oni bai y cymerir camau brys. Mae dogfennau strategol yn cyfeirio at y ffaith bod rhwydwaith ffyrdd Caerdydd wedi cyrraedd capasiti llawn yn 2010 ac wedi mynd dros gapasiti ers hynny. Mae hyn yn effeithio ar y rhai hynny sy'n byw ac yn gweithio yn y ddinas, yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol.<br><br>3) Mae her ddifrifol yn wynebu Caerdydd o ran diffyg capasiti trafnidiaeth gyhoeddus wrth i'r ddinas dyfu yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol a thu hwnt. Mae cynnydd o ran capasiti trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghaerdydd yn hanfodol. Mae hyn o leiaf angen bod yn unol â'r rhagolygon twf sydd wedi'u cynnwys yn y CDLl, ac i baratoi ar gyfer twf mewn cymudwyr yn cyrraedd o awdurdodau cymdogol.<br><br>Mae'r Cyngor yn galw ar y Cabinet i wneud y canlynol:<br><br>1) Cynhyrchu Cynllun Gweithredu, yn seiliedig ar ddata trafnidiaeth a rhwydwaith manwl gywir a diweddaraf er mwyn mynd i'r afael â'r broblem o ran trafnidiaeth | 7.25 pm | 30 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gyhoeddus fel nad yw tagfeydd yn y dyfodol yn achosi i Gaerdydd ddod i stop, er budd y rhai hynny sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a'r rhai hynny nad ydynt.<br><br>2) Cyflwyno'r cynllun i'r Cyngor Llawn mewn 6 mis.<br><br>**Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Dianne Rees**<br><br>**Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Gavin Hill- John** | | |
| **14** | **Cwestiynau Llafar**<br><br>Derbyn cwestiynau llafar i'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet, Cadeiryddion Pwyllgorau a/neu Aelodau enwebedig o'r Awdurdod Tân | 7.55 pm | 90 mins |
| **15** | **Materion Brys** | 9.25 pm | 5 mins |
| **Materion y Cyngor nas Gwrthwynebir** | | | |
| **16** | **Penodi Llywodraethwyr Ysgol yr Awdurdod Lleol**<br>*(Tudalennau 489 - 494)*<br><br>*Cymeradwyo argymhellion Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol 19 Medi 2017*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol.* | 9.30 pm | 5 mins |
| **17** | **Aelodaeth y Pwyllgor**<br>*(Tudalennau 495 - 496)*<br><br>*Adroddiad Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Cyfreithiol* | | |
| **18** | **Penderfyniad Brys: Ymyrraeth yn Ysgol Gynradd Trelái**<br>*(Tudalennau 497 - 498)*<br><br>*Adroddwyd i'r Cyngor er gwybodaeth dan Reol Gweithdrefn Graffu 13(a) Cyfansoddiad Caerdydd.*<br><br>*Adroddiad Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Cyfreithiol* | | |
| **19** | **Cwestiynau Ysgrifenedig**<br><br>*Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a'r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.* | | |